Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Ionawr 2019

Jane Hutt
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd Cymru yn dilyn profiadau trawmatig yn eu gwledydd gwreiddiol ac ar eu teithiau i'r DU. Rydym am sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu cynorthwyo i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn at gymdeithas Cymru.

Credwn fod sgiliau, profiad a gwydnwch ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ddefnyddiol i Gymru, a bydd eu cynnwys yn gwella ein cymunedau. Mae llawer o gymunedau ledled Cymru wedi gweld hyn drostynt eu hunain, yn enwedig ers cychwyn y Rhaglen Ailsefydlu Syriaidd a'r Rhaglen Nawdd Cymunedol gysylltiedig.

Rwy'n falch o'r ymateb y mae cymunedau Cymru ac awdurdodau cyhoeddus wedi'i wneud ers cyhoeddi ein cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches diwethaf yn 2016. Rwyf am sicrhau ein bod yn cynnal y momentwm hwn a sicrhau bod cymorth ar gael i geiswyr lloches, yn ogystal â'r rhai sy'n cyrraedd o dan gynlluniau adsefydlu.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi lloches, sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ar geisiadau am loches, darparu cymorth a llety i geiswyr lloches, a gweithredu cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid. Felly, ni ellir datrys llawer o'r heriau a wynebir gan y cymunedau hyn yn llawn heb newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU.

Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen gwneud gwelliannau i safon y llety ar gyfer ceiswyr lloches, y cymorth ariannol y mae ceiswyr lloches yn ei dderbyn a'r cyllid a ddarperir i wasanaethau cyhoeddus Cymru i gynorthwyo gyda'r broses o integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, waeth beth fo eu llwybr i'r DU. Er y byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn cyn belled ag y bo modd, mae'n rhaid inni dderbyn na allwn reoli eu penderfyniadau nhw. Ni all y camau gweithredu a gynigir gan y cynllun hwn dorri rheolau deddfwriaethol Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynigion o fewn y meysydd datganoledig y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu arnynt. Mae'r cynllun 'Cenedl Noddfa' yn amlinellu ehangder y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ledled Cymru i sicrhau bod y cymunedau hyn yn wynebu llai o anghydraddoldeb, bod mynediad at gyfleoedd yn cael ei gynyddu, a bod y berthynas rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael ei gwella.

Er bod y cynllun yn cynnwys llawer o gamau traws-Lywodraethol, byddwn yn rhoi blaenoriaeth arbennig i faterion allweddol y tynnodd ffoaduriaid a cheiswyr lloches sylw atynt yn ystod gwaith datblygu'r cynllun hwn ac mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2017.

Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau:

» Y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mynediad at y gwasanaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) sydd eu hangen arnynt trwy gydol y 'siwrnai loches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd wrth gyrraedd ac yn ystod y cyfnodau gwasgaru ac wedi trawma.

» Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf;

» Nad yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio;

» Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o wynebu amddifadedd;

» Bod pob ffoadur a cheisiydd lloches (yn enwedig plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol ac yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli;

» Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysgol, gan gynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial llawn.

Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth eang o ymrwymiadau a allai wella canlyniadau ar gyfer yr aelodau hynny o'n cymunedau sydd newydd gyrraedd. Fodd bynnag, rwy'n ystyried bod y cynllun hwn yn garreg filltir hollbwysig ar hyd siwrnai hirach a fydd yn ein llywio tuag fod yn genedl noddfa o'r iawn ryw. Efallai y bydd angen camau gweithredu ychwanegol mewn meysydd polisi eraill i gyrraedd y nod hwnnw. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ymrwymiadau yn y cynllun hwn drwy ein gwaith ar y cyd â phobl sy'n chwilio am noddfa, â chymunedau Cymru ac â rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am eu hargymhellion, y 120 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches a wirfoddolodd eu hamser i swyddogion Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Clymblaid Ffoaduriaid Cymru a rhanddeiliaid eraill, sydd oll wedi helpu i lunio'r cynllun hwn, gan gynnwys yr ymatebwyr hynny a oedd wedi rhannu eu safbwyntiau ar y fersiwn ddrafft yn ystod y broses ymgynghori.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36317 ISBN digidol 978-1-78964-364-0

Mae'n fraint cyflwyno cynllun *Cenedl Noddfa*, dogfen sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y gwerthoedd rydym ni UNHCR, Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, yn credu sy'n hollbwysig i ddull dynol ac eto pragmatig o dderbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Wrth i'r rhethreg yn erbyn ceiswyr lloches a ffoaduriaid (a sawl categori "eraill" hefyd) droi'n arferion cyfyngol a gwahaniaethol mewn rhai gwledydd, mae'n braf darllen am gynllun sy'n cydnabod yr angen i gynnwys a chymryd rhan, a'r awydd i leihau'r holl galedi sy'n wynebu ceiswyr lloches, cyhyd ag y bo modd.

Mae'r awydd am ffordd gynhwysfawr o weithredu a'r angen i ystyried agweddau amrywiol ar brofiadau ffoaduriaid, nodi'r anghenion a'r bylchau amrywiol ar hyd y daith – o gyrraedd yma i integreiddio'n llawn – a deall sut mae'r rhain yn ategu ei gilydd, yn enghraifft o arfer dda. Mae cyflawni lles pobl yn fater cymhleth, a gall olygu bod angen cymorth ar bob math o faterion fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, tai, mynediad a'r gallu i astudio, gweithio, ymdoddi mewn cymuned newydd. Ni allwn fynd i'r afael â'r rhain yn unigol, na'u taclo trwy ddull 'un ateb i bawb'. Felly, rwy'n canmol Llywodraeth Cymru yn arbennig am feithrin dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r Cynllun hefyd yn mynd i'r afael ag ochr arall y geiniog, un hollbwysig i ni. Mae croesawu ffoaduriaid nid yn unig o fudd i'r ffoaduriaid eu hunain, ond yn cyflwyno elfennau cadarnhaol i bawb. Pan ddaw ffoaduriaid yn rhan ganolog o'r cymunedau sy'n eu derbyn, maen nhw'n cyfrannu at ddeialog ac at fywyd cymdeithasol ac economaidd. Gall wir fod yn sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill. Am y rheswm hwn, mae cynhwysiant a chymryd rhan ymhlith yr egwyddorion sy'n ysbrydoli'r Compact Byd-eang ar Ffoaduriaid (y Compact), ymrwymiad rhyngwladol arloesol i fynd i'r afael ag achosion o ddadleoli gorfodol mewn ffyrdd sy'n rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i ffoaduriaid a'r cymunedau derbyn er lles y naill a'r llall. Er nad yw'r Compact wedi'i rwymo mewn cyfraith, mae'n seiliedig ar gyfraith hawliau dynol a ffoaduriaid cyfredol ac, yn bwysicach, cryn dipyn o synnwyr cyffredin.

Hefyd, mae'r Compact yn rhoi cryn bwyslais ar atebion, megis ail-setlo mewn trydedd gwlad. Mae nifer y ffoaduriaid sydd angen eu hailsefydlu wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar, fel y niferoedd sy'n gorfod ffoi o'u mamwlad. Ar y llaw arall, mae'r lleoedd ailsefydlu sydd ar gael yn brinnach. Yn wyneb hyn, mae ymrwymiad cadarn Cymru i'r rhaglen hon, ynghyd â llywodraethau eraill y DU, yn allweddol. Mae ailsefydlu yn achub ac yn ailadeiladu bywydau, ac mae'n fynegiant pwysig o undod â'r gwledydd hynny sydd, oherwydd eu daearyddiaeth, yn derbyn y nifer mwyaf o ffoaduriaid yn y pen draw.

Er mwyn cyrraedd y nod, mae uchelgais Cymru i fod yn *Genedl Noddfa* yn haeddu sêl bendith pawb: awdurdodau lleol, cymdeithas sifil, dinasyddion, busnesau a llywodraeth y DU. Trwy gynnig cefnogaeth lwyr i'r UNHCR, rwy'n annog yr holl bartneriaid hynny i ymuno â'r ymdrech clodwiw hwn, a chyfrannu at ei lwyddiant.

Rossella Pagliuchi-Lor,
Cynrychiolydd UNHCR i'r DU

Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth i Gymru. Rydym yn credu y dylid trin pob unigolyn yn deg, yn enwedig y rheini sydd wedi eu gwthio bellaf i'r cyrion gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag gallu sicrhau eu hanghenion sylfaenol. Rydym yn gweithio i sicrhau dyfodol tecach sy'n galluogi mynediad teg i wasanaethau ac anghenion dynol er mwyn cefnogi cyfleoedd i bob unigolyn ffynnu.

Mae hawliau dynol wrth galon holl weithgarwch Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn cydymffurfio â saith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sydd wedi'u llofnodi a'u cadarnhau gan y DU. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i gorffori yng nghyfraith Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am loches a mewnfudo. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r ysgogwyr allweddol i atal canlyniadau niweidiol, megis gwneud penderfyniadau amserol a da am achosion lloches, ansawdd llety lloches a darpariaeth cymorth cyfreithiol, y tu hwnt i'n rheolaeth ni. Fodd bynnag, bydd integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus Cymru a chymunedau Cymru.

Yn y cynllun hwn, rydym yn cyfeirio'n aml at 'geiswyr lloches' a 'ffoaduriaid'. Mae gan y termau hyn ystyr fanwl ac maent yn ymwneud â statws mewnfudo unigolion. Mae **ceisydd lloches** yn berson sy'n ffoi rhag erledigaeth yn ei famwlad, ac sydd wedi cyrraedd gwlad arall, sydd wedi hysbysu'r awdurdodau eu bod yno ac wedi arfer eu hawl gyfreithiol i wneud cais am loches. Bydd yr unigolion hyn yn disgwyl canlyniad eu hawliad am loches.

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn 1951 sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, mae **ffoadur** yn berson sydd *"owing to a well-founded fear of being persecuted for reasons of race, religion, nationality, membership of a particular social group, or political opinion, is outside the country of his nationality, and is unable to or, owing to such fear, is unwilling to avail himself of the protection of that country."*

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod ceisydd lloches fel ffoadur pan fydd yn bodloni'r diffiniad uchod. Yn y cynllun hwn, mae'r term 'ffoadur' yn cyfeirio hefyd at y rhai nad ydynt wedi cael eu cydnabod fel ffoaduriaid, ond sydd wedi cael caniatâd amhenodol i aros, wedi cael cynnig amddiffyniad dyngarol neu wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn yn dilyn eu cais am loches.

Rydym hefyd yn defnyddio'r ymadrodd ***'pobl sy'n chwilio am noddfa'*** yn y ddogfen hon fel term ymbarél sy'n cyfeirio at ffoaduriaid neu geiswyr lloches o unrhyw gefndir. Gwneir hynny i wrthsefyll y rhethreg annynol a allai godi wrth gyfeirio at bobl yn ôl y statws mewnfudo sydd wedi'i bennu iddynt. Rhaid inni gydnabod yn bennaf oll mai pobl yw'r aelodau hyn o'n cymunedau, ac er bod eu statws mewnfudo'n rhoi hawliau a rhwymedigaethau pwysig iddynt, ni ddylid ystyried bod hynny'n fwy pwysig na sicrhau llesiant a diogelwch i bob unigolyn.

Mae pob un o'r camau yng nghynllun *Cenedl Noddfa* Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â themâu a blaenoriaethau Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru ac, yn eu tro, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn enwedig o ran 'Cymru sy'n fwy cyfartal', 'Cymru o gymunedau cydlynus', a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Mae yna gysylltiad agos â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 hefyd.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i'n dulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r rheini sydd wedi byw drwy brofiad o anghydraddoldeb ac anfantais, ac rydym yn gwrando ar eu llais. Rydym yn gweithredu gyda nhw yn hytrach nag iddynt a throstynt. Mae hynny'n golygu cynnwys y bobl y bydd

ein cynlluniau yn effeithio arnynt ar bob cam o'u datblygiad. Mae honno'n enghraifft bwysig o'r ffordd rydym yn rhoi'r Ddeddf ar waith.

Datblygwyd y cynllun hwn gyda **chyfranogiad** agos ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sefydliadau sy'n eu cynorthwyo, a gwahanol gyrff cyhoeddus allweddol y mae eu gwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar ein nod i unigolion ailadeiladu eu bywydau a chyrraedd eu llawn botensial yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf y dylai **integreiddio** ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddechrau ar y diwrnod cyntaf y maent yn cyrraedd yma. Mae hyn yn allweddol i sicrhau ein bod yn cefnogi'r canlyniadau gorau posibl i unigolion a chymunedau.

Bwriedir i'r camau gweithredu yn y cynllun hwn ddarparu cefnogaeth gyfannol i unigolion a chymunedau yng Nghymru. Er enghraifft, byddai cefnogi cynlluniau gwirfoddoli i ffoaduriaid yn cyfrannu at gymdeithas Cymru, a hefyd yn cefnogi'r broses o gaffael iaith, iechyd meddwl a chyflogadwyedd unigolion. Yn hynny o beth, bydd camau gweithredu yn y cynllun hwn yn atgyfnerthu'r naill a'r llall.

Wrth ddatblygu'r camau hyn, rydym wedi ceisio **atal** y problemau mwyaf niweidiol a wynebir gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys digartrefedd, cyflyrau iechyd meddwl, llety gwael a'r risg o amddifadedd. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd calonogol eisoes mewn rhai o'r meysydd hyn, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i wella canlyniadau.

Mae'r cynllun hwn yn ceisio pennu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cymunedau hyn tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn. Felly, mae'n rhan bwysig o nod **hirdymor** i Gymru fod yn Genedl Noddfa o'r iawn ryw ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Caiff y nod hwn ei adlewyrchu yn yr enw ar gyfer y cynllun hwn ac rydym yn annog sefydliadau eraill (Cyhoeddus neu Breifat) hefyd i ystyried pa gamau y gallant eu cymryd a **chydweithio** gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r syniad o Gymru fel *Cenedl Noddfa*.

Yn aml mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu problemau tebyg wrth gyrraedd Cymru ond maent yn dod o lawer o wahanol ddiwylliannau a gwledydd gwreiddiol. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo dulliau sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn** sy'n sicrhau bod unigolion yn cael eu cynorthwyo i integreiddio, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau. Dylai hyn atal dulliau gweithredu ar sail un ateb sy'n addas i bawb a all adael rhai cymunedau ar ôl.

Rydym hefyd yn annog cymunedau a sefydliadau Cymru i gydnabod yr asedau sydd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn barod, gan mai nhw fydd yr arbenigwyr yn aml yn sgil profiad neu byddant yn cynnig sgiliau sydd eu hangen ar ein cymdeithas. Er enghraifft, mae Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru (WARD), a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn cynorthwyo meddygon sy'n ffoaduriaid i gael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau meddygol presennol a dod o hyd i gyflogaeth yn y GIG am bymtheng mlynedd. Amcangyfrifir bod y cynllun hwn wedi arbed o leiaf £25m i drethdalwyr dros y cyfnod hwnnw, gan alluogi ffoaduriaid i ddefnyddio'u sgiliau i roi rhywbeth yn ôl i Gymru ac achub bywydau di-rif wrth wneud hynny. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfnewid a dysgu diwylliannol yn broses ddwy ffordd, a bod gan bobl o gefndiroedd gwahanol lawer i'w rannu â'i gilydd ac i'w ddysgu o'i gilydd.

Mae cymunedau yng Nghymru yn rhoi croeso ysbrydoledig i lawer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches eisoes, fel a welir yn yr ymgyrch 'Croeso i Ffoaduriaid' a thwf sefydliadau Nawdd Cymunedol. Mae'r diolch a'r ganmoliaeth gyson a roddir gan ffoaduriaid sydd newydd ailsefydlu yn tystio i gynhesrwydd ein cymunedau. Rydym am adeiladu ar yr ewyllys da hwn trwy greu mwy o gyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gyfarfod â thrigolion presennol Cymru a hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol.

Mae pedair ardal yng Nghymru – Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam – wedi bod yn cynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid ers blynyddoedd lawer, ond mae gan gymunedau Cymru gyfleoedd newydd bellach i ymgysylltu â'r unigolion hyn, oherwydd ymdrechion calonogol awdurdodau lleol Cymru sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Ailsefydlu Syriaidd. Mae'r ymrwymiad hwn yn dangos y math o wlad y carem fod. Disgwyliwn i Gymru barhau i chwarae rhan lawn mewn rhaglenni ailsefydlu ffoaduriaid yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Gwyddom fod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu heriau sylweddol wrth iddynt gyrraedd y DU ond ni chaiff llawer o'r dystiolaeth a fyddai'n ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n targedu cymorth yn y ffordd orau wedi'i chasglu hyd yma. O ganlyniad, mae creu camau mesuradwy yn anodd iawn. Felly, byddwn yn sefydlu grŵp tystiolaeth i wella gwaith casglu a rhannu data gyda'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r bobl hyn.

Mae'r cynllun hwn yn gam pwysig tuag at wneud Cymru'n Genedl Noddfa, ond bydd angen cefnogaeth a chyfranogiad rhanddeiliaid allweddol, megis Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol Cymru, Clymblaid Ffoaduriaid Cymru, cymunedau Cymru a phobl sy'n chwilio am noddfa er mwyn sicrhau bod y cynllun yn arwain at newid cadarnhaol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r partneriaid hyn i droi hyn yn realiti.

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
1. Sicrhau bod ffoaduriaid yn cael eu cynorthwyo i drosglwyddo o lety lloches i lety cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Ariannu cymorth i ffoaduriaid newydd i drosglwyddo i lety newydd a chael mynediad at wasanaethau yn ystod y cyfnod 'Symud Ymlaen'. (Mae'r prosiect 'Tai i Ffoaduriaid' a drefnir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn cael ei ariannu i ddarparu'r cymorth hwn ar hyn o bryd). » Ceisio dylanwadu ar brosesau Contract Llety a Chymorth i Geiswyr Lloches (AASC) a phrosesau Cyngor, Hysbysu am Broblemau a Chymhwysedd (AIRE) Llywodraeth y DU i sicrhau bod y contractau newydd ar gyfer llety lloches (tu hwnt i 2019) yn cefnogi ffoaduriaid newydd yn y cyfnod 'Symud Ymlaen'. » Sicrhau bod darparwyr nesaf AIRE yn gwybod am ddeddfwriaeth Cymru, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru) 2015. » Cydweithio â'r rheini yn yr ardaloedd gwasgaru i sicrhau bod eu Strategaethau Atal Digartrefedd yn ystyried pa mor agored i'r posibilrwydd o ddigartrefedd y mae ffoaduriaid newydd. » Ystyried cyfleoedd i leihau digartrefedd ffoaduriaid trwy weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, awdurdodau lleol, undebau credyd ac eraill i ganfod llwybrau cliriach i lety yn ystod y cyfnod 'Symud Ymlaen'.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Dai Yr Is-adran Gymunedau	Amcan Ffyniant i Bawb ('FfiB Amc.') 5; 10 Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol ('CCS amc.') 1; 7 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Tai

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Sicrhau bod hyfforddiant landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn cynnwys esboniad o'r gwiriadau Hawl i Rentu a sut i wirio statws ffoaduriaid yn hawdd er mwyn atal gwahaniaethu (unwaith y bydd y dyddiad cyflwyno'n hysbys). » Gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod y rhaglen Cefnogi Pobl, a'r Grant Cymorth Tai o 2019 ymlaen, yn cynorthwyo'r ffoaduriaid hynny sy'n gymwys i gadw eu llety.		
2. Hyrwyddo llety lloches o ansawdd da a ddarperir gan Lywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Cydweithio â Llywodraeth y DU, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gefnogi proses drosglwyddo drefnus ac effeithiol i'r contractau newydd ar gyfer llety a chymorth i geiswyr lloches o 2019 ymlaen. » Nodi'r cyfleoedd i wella'r Datganiad am Ofynion o dan gontractau newydd llety a chymorth i geiswyr lloches yn ystod y cyfnod symud a phontio. » Monitro proses weithredu'r contractau newydd ar llety a chymorth i geiswyr lloches drwy feithrin cysylltiadau rheolaidd â'r darparwyr, y Swyddfa Gartref a phartneriaid eraill i sicrhau bod ceiswyr lloches yn gallu cael llety a gwasanaethau o ansawdd da.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 6 CCS Amc. 1 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Tai

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
3. Cynorthwyo tenantiaid sy'n geiswyr lloches i eirioli am welliannau i'w llety. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Ariannu fforymau eiriolaeth yn y pedair ardal wasgaru bresennol yng Nghymru (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam) trwy'r Rhaglen Hawliau Lloches a ariennir gan Lywodraeth Cymru tan 2020 er mwyn sicrhau y gall ceiswyr lloches drafod problemau'n ymwneud â'u llety a phynciau eraill a ddewisir gan gyfranogwyr. » Gweithio gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru i sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd rhwng y darparwr llety lloches, y trydydd sector a cheiswyr lloches, yn parhau o dan y contractau AIRE ac AASC newydd.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 6 CCS Amc. 2 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Tai

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
4. Cefnogi cyflogadwyedd ffoaduriaid. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Datblygu a gweithredu'r prosiect 'Dechrau o'r Newydd: Integreiddio Ffoaduriaid' sydd gwerth £2m ac a fydd yn darparu cymorth holistaidd i geisiwyr lloches i'w galluogi iddynt gael eu hangenion wedi'u hasesu, cael mynediad i hyfforddiant neu gymorth i leihau'r rhwystrau rhag cyflogadwyedd a chynyddu'r cyfleoedd i weithio yn y farchnad lafur. » Sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a thegwch sy'n ganolog i 'Gynllun Cyflogadwyedd' Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhoi ystyriaeth i anghenion ffoaduriaid o ran cael gwaith a chadw swyddi. » Sicrhau bod rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Cymru'n Gweithio, Porth Cyngor Cyflogaeth a rhaglenni cyflogadwyedd eraill yn hyrwyddo eu gwasanaethau yn uniongyrchol i ffoaduriaid a diwygio prosesau cipio data i nodi enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae'r rhaglenni wedi gallu cynorthwyo'r rhai sy'n gymwys o fewn y gymuned hon yn rheolaidd. » Gweithio gyda Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Busnes Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyflogwyr i nodi a chael gwared ar rwystrau rhag cyflogaeth i ffoaduriaid, drwy'r prosiect Dechrau o'r Newydd a mentrau eraill. » O 2019 ymlaen, geisio gweithredu argymhellion ymchwil Llywodraeth Cymru ar gyflogadwyedd ffoaduriaid a wnaed gan yr Uned Pobl a Gwaith, drwy'r prosiect Dechrau o'r Newydd, a mentrau eraill Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a chydweithio â rhanddeiliaid eraill.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE WEFO	FFiB Amc. 1;9 CCS Amc. 1; 3 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Sgiliau a Chyflogadwyedd

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Sicrhau bod Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cael ei hyrwyddo i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau yn ystod 2019 i gynorthwyo i gydnabod cymwysterau. » Sicrhau bod Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn parhau i gefnogi meddygon sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid drwy fentrau fel Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru (WARD) sy'n helpu meddygon sy'n ffoaduriaid i fodloni'r cymwysterau proffesiynol sydd eu hangen i gefnogi'r GIG.		
5. Gweithio gyda Busnes Cymru i gynorthwyo ffoaduriaid i sefydlu eu busnesau eu hunain. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Darparu gweithdai wyneb yn wyneb a llinell gymorth Busnes Cymru i sicrhau bod gan ffoaduriaid fynediad at gyngor busnes, gwybodaeth a chysylltiadau â chyfleoedd buddsoddi, gan gynnwys trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu (os oes angen) drwy'r Gronfa Gyfranogi. » Ystyried anghenion penodol ffoaduriaid wrth ddatblygu'r Cynllun Entrepreneuriaeth newydd yn y Gymuned. » Annog ffoaduriaid sy'n entrepreneuriaid yn barod i weithredu fel mentoriaid ar gyfer ffoaduriaid sy'n cychwyn busnesau newydd. » Gweithio gyda Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru i sicrhau bod gwasanaethau Busnes Cymru yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol i ffoaduriaid. » Sicrhau bod menywod sy'n ffoaduriaid, yn arbennig, yn cael eu hannog i ystyried cyfleoedd entrepreneuriaeth.	Llywodraeth Cymru – Busnes Cymru	FFiB Amc. 1 CCS Amc. 3; 7

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
6. Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches i osgoi amddifadedd, lleihau neu liniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i fonitro a cheisio lleihau effeithiau gwaethaf diwygiadau lles Llywodraeth y DU gymaint ag sy'n bosibl, er mwyn nodi ffactorau sy'n rhwystr i ffoaduriaid a chael atebion posibl. » Hyrwyddo proses hawlio eithriadol i alluogi pobl sy'n chwilio am noddfa i gael mynediad at y Gronfa Cymorth Dewisol cyn derbyn rhifau Yswiriant Gwladol. » Codi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Cyflenwi er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid yn gallu elwa ar Undebau Credyd, y Gronfa Cymorth Dewisol, cyngor ar ddyledion ac arweiniad ariannol a gwasanaethau eraill. » Parhau i weithio gyda Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru i fapio'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches amddifad a gweithredu opsiynau i wella'r gefnogaeth yn ystod 2019.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 10 CCS Amc. 2; 7

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
7. Hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel lle i ffoaduriaid (yn amodol ar reolau cenedligrwydd)[1] weithio. Mae amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-20 yn pennu'r nod i'r sefydliad o fod yn batrwm o amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gwella'r rhaglen allgymorth a lleoliadau bresennol i ehangu apêl Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, gan ddangos tegwch, ymddygiad agored a thryloywder er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosibl wneud cais. » Sicrhau bod y rhaglen allgymorth yn cynnwys ymgysylltu â'r holl nodweddion gwarchodedig; mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi ffoaduriaid er mwyn sicrhau bod unigolion o fewn cymunedau ffoaduriaid (sy'n gymwys yn unol â rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil) yn cael y cyfle i wneud cais am brofiad gwaith neu am leoliad/interniaeth, gan roi cyfle i weld sut beth yw gweithio yn y sefydliad.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Adnoddau Dynol – Gwasanaethau Arbenigol	FFiB Amc. 8 CCS Amc. 3; 8

[1] 'Civil Service Nationality Rules': https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536134/civil_service-nationality_rules_20_june__2016.pdf

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
8. Cefnogi'r rhai sy'n goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Ailedrych ar argymhellion yr adroddiad 'Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum-seeking women in Wales'[2] i wybod am y camau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn ystod 2019. » Gweithio gyda rhanddeiliaid i datblygu model cynaliadwy ar gyfer darparu cyllid i wasanaethau VAWDASV arbenigol sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid i sicrhau cymorth dibynadwy. » Sicrhau bod anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu hystyried o fewn fframwaith cyfathrebu cenedlaethol VAWDASV (y thema gyffredinol ar gyfer ein hymgyrch yn ystod 2018-20 fydd rheolaeth, a bydd yn cynnwys y rhai hynny o gymunedau amrywiol, fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches). » Ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi goroesi VAWDASV, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, trwy ddatblygu Mecanweithiau Ymgysylltu Cenedlaethol ar gyfer Goroeswyr yn 2019. » Datblygu peilot yn 2019 ar gyfer panel cenedlaethol i ymgysylltu â goroeswyr, a gaiff ei ddatblygu yn dilyn meithrin cysylltiadau pellach â goroeswyr VAWDASV gan gynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Ystyrir ymhellach a yw Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol VAWDASV yn ymdrin ag amgylchiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ddigonol.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 10 CCS Amc. 4

[2] 'Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum-seeking women in Wales': http://www.wmp.org.uk/documents/wsmp/WSMP%20Info/Uncharted%20territory%20violence%20against%20migrant%20refugee%20and%20asylum%20seeking%20women%20in%20Wales.pdf

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Rhoi hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' VAWDASV ar waith fesul cam i weithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth am anawsterau a wynebir gan gymunedau phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Darparu cyngor a chymorth trwy Linell Gymorth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn Byw Heb Ofn, sy'n cynnwys cefnogaeth 'Llinell laith'.		
9. Gweithio tuag at atal pobl sy'n chwilio am noddfa, gan gynnwys y rheini heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF), rhag dod yn ddioddefwyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i roi gwybod i Lywodraeth y DU am bryderon ynghylch pa mor agored i gamfanteisio y mae pobl sy'n chwilio am noddfa. » Parhau i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid. » Sicrhau bod y cyllid a ddyfernir i sefydliadau yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r 'Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'[3] i atal caethwasiaeth fodern a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 10 CCS Amc. 4

[3] 'Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi': http://prp.gov.wales/docs/prp/ethicalcode/codeofpracticeethicalemploymentcym.pdf

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
1. Sicrhau bod anghenion iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu hasesu a'r canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth gynllunio gwasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu diwallu anghenion gofal iechyd newydd-ddyfodiaid a gydol y prosesau lloches ac ailsefydlu yng Nghymru. » Cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i gwblhau asesiadau o iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol	Amcan Ffyniant i Bawb ('FfiB Amc.') 5; 6 Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol ('CCS amc.') 1 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Tai
2. Sicrhau bod llai o rwystrau i ofal iechyd ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Cynnal gofal iechyd am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys rhai sydd heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF). » Cyhoeddi canllawiau polisi i ymarferwyr gofal iechyd er mwyn cefnogi ymarferwyr i ddarparu gwasanaethau mwy hygyrch.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Yr Is-adran Gymunedau Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG	FFiB Amc. 4; 5 CCS Amc. 1; 6

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Sicrhau bod byrddau iechyd yn cynnig hyfforddiant ar ddatblygu ymwybyddiaeth ymysg staff drwy gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth hyrwyddo a lledaenu modiwl e-ddysgu newydd ar ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac iechyd, a fydd ar gael i holl staff y GIG erbyn mis Mawrth 2020. » Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ceiswyr lloches mewn Llety Cychwynnol yn cael eu hannog i fynd i sesiynau sgrinio iechyd ac yn derbyn help wrth gofrestru gyda gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol pan fyddant yn cael eu symud i lety arall.		
3. Pennu dulliau o hyrwyddo rhannu arferion gorau er mwyn gwella canlyniadau iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau mynediad i lu o ddeunyddiau hybu iechyd hygyrch erbyn 2019. » Gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu hadolygu ac anghenion gwasanaethau yn cael eu diwallu'n effeithiol trwy adolygu canllawiau polisi gofal iechyd Llywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2020.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed	FFiB Amc. 4; 5 CCS Amc. 1

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
4. Creu'r amodau i bob plentyn o'r cefndiroedd hyn gael dechrau iach mewn bywyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i weithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael brechiadau ac agweddau eraill ar raglen Plant Iach Cymru. » Parhau i ystyried amgylchiadau penodol plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn perthynas â gwaith sy'n edrych ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. » Gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ffoaduriaid a cheiswyr lloches.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cyflyrau Iechyd Difrifol Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Yr Is-adran Gymunedau Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol	FFiB Amc. 4; 5; 7
5. Lleihau nifer achosion o gyflyrau iechyd meddwl sydd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chefnogi diagnosis a thriniaeth fwy effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda Chynghrair Ffoaduriaid Cymru a phartneriaid eraill er mwyn datblygu, gwirfoddoli a mentora cynlluniau sy'n mynd i'r afael ag achosion o unigrwydd ac iselder ymhlith y rhai hynny sy'n byw mewn llety gwasgaredig. » Gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn gallu diwallu anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn ffordd amserol ac effeithiol trwy adolygu'r Llwybr Gofal Iechyd Meddwl a chanllawiau cysylltiedig erbyn Rhagfyr 2020.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed. Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 4; 5 Ffyniant i Bawb – Maes Blaenoriaeth – Iechyd meddwl

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Ystyried pa mor ymarferol yw datblygu gwasanaeth ar gyfer Straen Trawmatig yng Nghymru, sy'n cynnwys ystyried y cymorth yr ydym yn ei rhoi i Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches.		
6. Helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda phrosiect cynnwys pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Chwaraeon Cymru er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cymryd rhan.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Chwaraeon	FFiB Amc. 5

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
1. Sicrhau bod gwasanaeth cwnsela annibynnol ar gael i blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Diweddaru'r Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela erbyn Haf 2019, er mwyn rhoi sylw i'r ffaith fod plant/pobl ifanc ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn fwy tebygol o fod wedi cael profiadau trawmatig penodol. » Sefydlu gweithgor i wella cofnodion data cwnsela, gan gynnwys ystyried plant o gefndiroedd ffoaduriaid neu geiswyr lloches.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr	FFiB Amc. 5; 7 CCS Amc. 4
2. Helpu a herio Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ar y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd yn uniongyrchol, a thrwy gymorth i ysgolion, er mwyn gwella canlyniadau addysg pob dysgwr. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Defnyddio ein dulliau cyfredol, gan gynnwys ein rhaglen adolygu a herio a'n cysylltiadau â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) a'r consortia addysg rhanbarthol. » Gweithio gydag ADEW er mwyn sicrhau bod rhannu 'Arferion Da' wedi'i gynnwys fel eitem ar yr agenda yn nhrafodaethau'r Fforwm Cyflawni Awdurdodau Lleol ar Leiafrifoedd Ethnig.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg ADEW	FFiB Amc. 7; 9 CCS Amc. 3

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
3. Archwilio sut i ddenu rhagor o deuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches i elwa ar hawliau addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Annog rhagor o deuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddefnyddio hawliad addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen. » Archwilio ffyrdd o hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant ymhlith teuluoedd o ffoaduriaid cymwys sy'n gweithio.	Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm, Asesu, ac Addysgeg Awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol	FFiB Amc. 7 CCS Amc. 7
4. Helpu teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymryd rhan yng nghynlluniau Dechrau'n Deg er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r teuluoedd hyn er mwyn sicrhau bod modd darparu cymorth mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cymwys ac mewn ffyrdd diwylliannol addas. » Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod y gallant ddefnyddio allgymorth Dechrau'n Deg i dargedu plant o gymunedau o ddiddordeb penodol yn eu hardaloedd nhw, hyd yn oed os ydyn nhw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd	FFiB Amc. 7 CCS Amc. 7

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
5. Hyrwyddo Sgiliau Hanfodol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn gwella eu rhagolygon gwaith, cydlyniant cymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion i blant (Sgiliau Hanfodol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Llythrennedd Digidol yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer darparu addysg i oedolion yng Nghymru o hyd). Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Hyrwyddo polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) i Gymru. » Rhoi'r datblygiad ar gyfer Canolfannau ESOL ar waith drwy'r prosiect Dechrau o'r Newydd: Integreiddio Ffoaduriaid yn ystod 2019, er mwyn sicrhau bod y pedair ardal wasgaru'n cael eu cynnwys (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam) yn dilyn llwyddiant y peilot yng Nghaerdydd. Bydd Canolfannau ESOL yn gwella'r cydweithredu rhwng darparwyr ESOL yn y pedair ardal wasgaru, yn ogystal â chefnogi bod myfyrwyr yn cael eu lleoli'n fwy priodol i helpu cynnydd ESOL. » Bydd y prosiect Dechrau o'r Newydd yn sicrhau asesiad cyflymach a mwy cyson o ran anghenion ESOL, ac yn cynyddu argaeledd darpariaeth ESOL i ffoaduriaid hyd at ddiwedd 2020. Bydd mynediad ffoaduriaid i ESOL hefyd yn cael ei wella drwy 'Gronfa Rwystrau' benodol fel rhan o brosiect Dechrau o'r Newydd. Gallai'r rhwystrau y mae angen ymdrin â nhw gynnwys gofal plant neu drefniadau cludo, neu ffactorau eraill os bydd amgylchiadau personol yn atal pobl rhag mynychu cyrsiau. » Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru hyd at 30 Mehefin 2019 i nodi a darparu cymorth i sefydliadau sy'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael eu hallgáu'n ddigidol i wella'u bywydau drwy ymgymryd â thechnoleg. Caiff rhaglen i'w holynu ei chaffael i ddechrau ar 1 Gorffennaf 2019.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Yr Is-adran Gymunedau Yr Is-adran Dyfodol Ffyniannus	FFiB Amc. 7; 9; 10 CCS Amc. 3

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
6. Sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ymwybodol o wasanaethau cymorth a ddarperir drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf, a'u bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu Canllawiau diwygiedig Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf sy'n gofyn iddynt ystyried anghenion teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. » Hefyd, mae canllawiau yn mynnu bod awdurdodau lleol yn meithrin cysylltiadau â sefydliadau sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r rhaglen a'r cymorth y gall ei darparu.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd Awdurdodau lleol	FFiB Amc. 5; 7 CCS Amc. 7
7. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd prentisiaeth ymhlith ffoaduriaid er mwyn helpu i gynyddu cyfleoedd gwaith a dysgu. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda'r hyrwyddwr cydraddoldeb, dan arweiniad Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, er mwyn gwella mynediad i brentisiaethau. » Meithrin dealltwriaeth well ar draws rhwydwaith darparwyr dysgu yn y gweithle o'r rhwystrau sy'n wynebu ffoaduriaid trwy gyfarfodydd Grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb Hyrwyddwr Cydraddoldeb NTFW a chreu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. » Codi ymwybyddiaeth grwpiau ffoaduriaid o'r rhaglen Brentisiaeth trwy ymgysylltu â Chynghrair Ffoaduriaid Cymru.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau	FFiB Amc. 1; 9 CCS Amc. 3

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
8. Mynd i'r afael ag achos o fwlio mewn ysgolion yn erbyn plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Sicrhau bod safbwyntiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu canllawiau gwrth-fwlio *Parchu Eraill* yn ystod y cyfnod ymgynghori. » Gweithio gydag ymarferwyr addysg, awdurdodau perthnasol, plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y canllawiau diwygiedig yn cael yr effaith fwyaf posibl.	Llywodraeth Cymru – Cymorth i Ddysgwyr	FFiB Amc. 5 CCS Amc. 4
9. Cynyddu'r cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mynediad i addysg bellach ac uwch. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Sicrhau bod sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn darparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad er mwyn cefnogi'r broses ymgeisio a'r cymorth ariannol sydd ar gael. » Gweithio tuag at newid y Lwfans Cynnal Addysg a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn fel bod ceiswyr lloches yn gymwys o dymor Medi 2020 ymlaen. » Sicrhau bod ffoaduriaid yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr fel 'myfyrwyr o Gymru' drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn ogystal ag archwilio pa mor gymwys yw ceiswyr lloches.	Llywodraeth Cymru – Is-adran Addysg Uwch a Chyflenwi	FFiB Amc. 7; 8; 9 CCS Amc. 1; 3

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Prifysgolion a'u partneriaid i archwilio a chyhoeddi ymarfer ar gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Gweithio gyda grŵp Noddfa i Addysg Uwch (timau 'Ehangu Mynediad' addysg uwch) er mwyn nodi'r cyfleoedd i gynyddu nifer y ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n gwneud cyrsiau addysg uwch ac yn aros i'w cyflawni.		
10. Cefnogi plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, i sicrhau eu bod nhw'n gallu cael y cyngor a'r gwasanaeth eirioli sydd eu hangen arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Darparu cyllid i awdurdodau lleol yn ystod 2019 i gefnogi ymarfer peilot mewn perthynas â Gwarcheidiaeth, gan adeiladu ar gymorth eiriolaeth cyfredol a pharhaus o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gwasanaeth Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol. » Parhau i ariannu elusen TGP Cymru hyd at fis Mawrth 2020, trwy'r Rhaglen Hawliau Lloches, er mwyn rhoi cymorth eirioli i blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches. » Gweithio gyda phartneriaid y Trydydd Sector i gasglu barn plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches, er mwyn helpu i lywio gwaith y dyfodol, gan gynnwys ymgynghori â Fforwm Cyfranogi TGP Cymru. » Codi ymwybyddiaeth o hawliau plant drwy hybu cyngor ac adnoddau gwybodaeth Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, gwefan Noddfa a'n gwaith gyda TGP Cymru yn ystod 2019.	Llywodraeth Cymru – Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 7; 10 CCS Amc. 1; 2

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
11. Helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod modd gofalu'n ddigonol am blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i ddarparu cyllid er mwyn i weithwyr cymdeithasol gael hyfforddiant priodol ar y broses asesu oed. » Adolygu ac ailgyhoeddi'r Pecyn Cymorth Asesu Oed er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben erbyn mis Ebrill 2019. » Parhau i ddarparu cyllid er mwyn hyfforddi gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol mewn amryw o sgiliau a gwybodaeth i wella eu gallu i gyflawni dros blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Cyhoeddi cyfres o adnoddau gwybodaeth penodol i Gymru ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac ar gyfer y plant eu hunain yn ystod 2019. » Gweithio gyda holl benaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru a'r Grŵp Llywio Strategol Fframwaith Maethu Cenedlaethol er mwyn archwilio ffyrdd o ddatblygu gofalwyr maeth o gefndiroedd lloches. » Monitro ac adrodd ar beryglon masnachu plant ceiswyr lloches sy'n derbyn gofal. » Gweithio gyda Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru er mwyn adolygu ac ailgyhoeddi Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches.	Llywodraeth Cymru – Ir Is-adran Galluogi Pobl Grŵp Llywio Strategol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol Holl Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru	FFiB Amc. 5; 7 CCS Amc. 1

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
12. Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod eu staff a'u partneriaid yn gallu diogelu plant ac oedolion sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Sicrhau bod materion diogelwch sy'n effeithio ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi'u deall, drwy drafodaethau ag awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU ac mewn cyfarfodydd y Grŵp Diogelu Trawslywodraeth. » Sicrhau bod yr adolygiad parhaus a'r gwaith o ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ystyried anghenion penodol plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, gan gynnwys yn achos plant sy'n mynd ar goll ac achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. » Sicrhau bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru diweddaraf yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn sensitif iddynt wrth ymdrin â materion amddiffyn plant.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio	

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
1. Darparu cymorth cydlynus ar ehangu ardaloedd gwasgaru ac ailsefydlu ffoaduriaid. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i ariannu gwaith Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol. » Helpu i weithredu cynlluniau effeithiol ar ailsefydlu ffoaduriaid yng Nghymru. » Monitro tensiynau cymunedol wrth gynnig ardaloedd gwasgaru newydd.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	Amcan Ffyniant i Bawb ('FfiB Amc.') 10 Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol ('CCS amc.') 6
2. Bydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael cymorth i hysbysu am achos o drosedd casineb. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Ariannu Gwasanaeth Cymorth Trosedd Casineb a Rhaglen Hawliau Ceiswyr Lloches Cymru gyfan tan fis Mawrth 2020 er mwyn codi ymwybyddiaeth o drosedd casineb ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches a hybu mwy o hysbysu. » Annog cyfleoedd i Swyddog Cymorth Cymunedol/Swyddogion Cyswllt yr Heddlu i ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn gwrthbrofi syniadau negyddol am yr heddlu a all godi yn sgil y ffordd y cawsant eu trin yn eu mamwlad, a meithrin cysylltiadau cadarnhaol. » Sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ymwybodol o drosedd casineb drwy wefan y[4] Noddfa o 2019 ymlaen.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 10 CCS Amc. 4; 6

[4] Teitl dros dro blaenorol gwefan y Noddfa oedd 'Croeso i Gymru'.

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
3. Meithrin perthynas dda rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymdeithas ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i ddatblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu er mwyn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod 2019-2020, a fydd yn pwysleisio manteision mewnfudo i gymdeithas Cymru ac yn chwalu'r mythau a'r wybodaeth anghywir am ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Gweithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo adroddiadau mwy cytbwys am ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod 2019-2020. » Sicrhau bod y Rhaglen Hawliau Lloches yn hyfforddi aelodau'r gymuned i fod yn 'Siaradwyr Noddfa' yn ystod 2019-2020. » Parhau i alw ynghyd Grŵp Cyfathrebu Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, gan gynnwys ceisio barn ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hunain. » Sicrhau bydd y Rhaglen Hawliau Lloches yn datblygu gweithgareddau a chyfathrebu rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymuned ehangach rhwng 2019 a 2020. » Hyrwyddo cyfraniad pob rhan o gymdeithas yn ystod Wythnos Ffoaduriaid bob blwyddyn. » Helpu i ddatblygu Nawdd Cymunedol, a mentrau grymuso eraill dan law'r gymuned, er mwyn croesawu, cefnogi ac integreiddio ffoaduriaid. » Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo prosiectau sy'n meithrin cysylltiadau da rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymdeithas ehangach.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau Partneriaid y Rhaglen Hawliau Lloches Cyngor Celfyddydau Cymru	FFiB Amc. 10 CCS Amc. 6

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
4. Sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch, o'r radd flaenaf, er mwyn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddefnyddio eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau i ariannu'r Rhaglen Hawliau Lloches, trwy gyllid rhaglen Amrywiaeth a Chydraddoldeb Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu cyngor ac eiriolaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae hynny'n cynnwys cyngor ac eiriolaeth cyffredinol, cyngor cyfreithiol, cefnogaeth i rai sydd wedi goroesi achos o drais neu fasnachu, a chymorth arbenigol i blant. » Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys gwybodaeth am Hawliau Dynol, Hawliau Plant a'r cynllun cyflawni hwn. Bydd gwybodaeth am hawliau yn cael ei rhannu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy 7 sefydliad partner y Rhaglen Hawliau Lloches tan 2020. » Adolygu a diweddaru 'Croeso i Gymru' trwy wefan newydd 'y Noddfa' er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion holl ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys gwybodaeth ar hawliau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl sy'n chwilio am noddfa cyn gynted â phosib. » Sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei darparu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn esbonio'r hawliau i gwyno, ac yn rhoi sicrwydd i unigolion na fydd cwynion yn effeithio'n negyddol ar hawliau lloches neu statws ymfudo.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 5; 10 CCS Amc. 1; 2; 6

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Ceisio nodi bylchau mewn cyngor a chymorth eiriolaeth (gan gynnwys cyngor cyfreithiol) a gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ledled Cymru a gweithio gyda phartneriaid i geisio canfod atebion i'r bylchau hyn. » Sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen awdurdodau lleol yn cael hyfforddiant am wladolion nad ydynt o'r DU (gan gynnwys pobl sy'n chwilio am noddfa) i sicrhau bod unigolion yn cael y gwasanaethau hynny y maen nhw'n gymwys i'w cael.		
5. Cefnogi mentrau gwirfoddoli a mentora, yn enwedig ar gyfer ceiswyr lloches heb yr hawl i weithio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a phartneriaid eraill er mwyn nodi a hyrwyddo cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael cyfleoedd i wirfoddoli er mwyn goresgyn unigrwydd, cefnogi integreiddio mwy effeithiol a chaffael iaith anffurfiol. » Cefnogi cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches rannu eu hiaith a'u diwylliant gyda'u cymunedau lleol. » Annog mwy o ddefnydd o fentoriaid ceiswyr lloches a ffoaduriaid fel arbenigwyr o brofiad er mwyn gwella'r broses o integreiddio ceiswyr lloches a ffoaduriaid newydd, gan gynnwys drwy brosiect Dechrau o'r Newydd: Integreiddio Ffoaduriaid.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 1; 8; 10 CCS Amc. 1

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
6. Darparu cydgysylltiad ac arweiniad mewn perthynas ag adsefydlu ac integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau â'r Tasglu a'r Bwrdd Gweithrediadau er mwyn ystyried anghenion pob ffoadur a cheisydd lloches, ynghyd â cheisio sicrhau bod safbwyntiau pobl sy'n chwilio am noddfa'n cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hynny. » Cysylltu'n agos â Llywodraeth y DU ar faterion polisi neilltuedig, fel llety a gwasgaru ceiswyr lloches neu newidiadau i'r polisi mewnfudo, er mwyn sicrhau ein bod yn deall anghenion pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru ac anghenion awdurdodau cyhoeddus Cymru yn iawn. » Gweithio tuag at y nod o droi Cymru'n 'Genedl Noddfa' mewn cydweithrediad â Chynghrair Ffoaduriaid Cymru. » Gweithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill er mwyn nodi ffyrdd o wella'r broses o gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud ag anghenion a chanlyniadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. » Annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu system gofnodi gyffredin i gasglu data cyson mewn perthynas ag unigolion heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF) er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o effeithiau deddfwriaeth a pholisïau mewnfudo Llywodraeth y DU. » Parhau i ymgysylltu'n helaeth â'r holl randdeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig ag ailsefydlu ac integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan gynnwys ymrwymiad i ymgynghori â phobl sy'n ceisio lloches trwy 'Fforymau Eirioli' y Rhaglen Hawliau Lloches, 'Grwpiau Cyfranogi Cenedlaethol' TGP Cymru, a thrwy ymgyngoriadau wedi'u teilwra.	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Gymunedau	FFiB Amc. 12 CCS Amc. 1; 6

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Parhau i ystyried anghenion pobl sy'n chwilio am noddfa, drwy gynlluniau fel Aduniad Teuluoedd ac eraill. » Parhau i hyrwyddo'r gwerthoedd Cymreig o groesawu'r rhai sy'n ffoi rhag trais, erledigaeth neu ryfel. » Sefydlu grŵp tystiolaeth gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu setiau data gwell i ddeall canlyniadau'r hyn a brofwyd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac asesu ymdrechion parhaus i leihau anghydraddoldebau.		
7. Hybu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Parhau â'r cynllun mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru a hyrwyddo hyn ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Archwilio cyfleoedd gyda Cadw i hyrwyddo treftadaeth y genedl i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. » Hyrwyddo cyfraniad ffoaduriaid a cheiswyr lloches at raglen Cyfuno: creu cyfleoedd trwy ddiwylliant, tan 2020. » Sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu cynnwys mewn cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.	Llywodraeth Cymru – Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cyngor Celfyddydau Cymru	FFiB Amc. 10; 12 CCS Amc. 2

Camau gweithredu	Sefydliad	Cysylltiad ag Amcanion
» Cynnwys adran ar ddiwylliant Cymru ar wefan y Noddfa. » Sicrhau bod cleientiaid 'Portffolio'r Celfyddydau' Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys cyfeiriad at ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eu cynlluniau cydraddoldeb ac yna monitro effaith hynny.		
6. Ymroi i ddarparu mynediad cyfartal i'r rhyngrwyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol: » Gweithio gyda Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl sy'n chwilio am noddfa'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys drwy gyfleusterau mewn Llety Cychwynnol, a thrwy godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod cyfleusterau ar gael iddynt mewn adeiladau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd. » Sicrhau bod gwefan y Noddfa'n cynnwys cyfieithiad wedi'i fewnblannu er mwyn cynyddu hygyrchedd.	Llywodraeth Cymru – Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Is-Adran Gymunedau Awdurdodau Lleol	FFiB Amc. 11 CCS Amc. 2